

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost / rhif ffôn:
rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

Cwestiwn 1: Gan gyfeirio at y tacsonomeg drafft yn Atodiad 1, a ydych yn cytuno â'r strwythur o bynciau ac is-bynciau a awgrymir?

Yn y meysydd ble mae gan UCAC ddiddordeb pennaf, mae'r Dacsonomeg a gynigir, ar y cyfan, yn ymddangos yn rhesymol ac yn rhesymegol. Cytunwn â'r pennawd 'Addysg a Sgiliau'.

Er hynny, mae gennym ambell gwestiwn i'w godi:

- **Ble yn y dacsonomeg mae gofal plant/blynyddoedd cynnar yn eistedd? Hynny yw, ble fyddai Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 yn perthyn? Mae'r sector blynyddoedd cynnar yn pontio'r sector gofal a'r sector ysgolion, ac mae polisi Llywodraeth Cymru yn symud tuag at greu system mwy integredig rhyngddynt; byddem felly yn ffafrio'i weld yn eistedd dan 'Addysg a Sgiliau', ac efallai o dan is-bennawd wedi'i addasu: 'Ysgolion a gofal ac addysg i blant'**
- **Yn yr un modd, mae ffiniau yn sgil addysg ôl-16 sydd yn debygol o fod yn anodd eu cwmpasu yn y dacsonomeg; enghraifft o ddeddf lletchwith i'r perwyl hwn yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, sy'n ymwneud ag addysg 14-19; os daw deddfwriaeth i sefydlu Comisiwn Trydyddol, yn unol â chynlluniau Llywodraeth Cymru, mi fydd hwnnw'n cwmpasu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion yn ogystal ag addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant; mae'r rhain oll yn eistedd yn daclus dan y pennawd/categori 'Addysg a Sgiliau' ond mae cwestiynau'n codi pan ddaw'n fater o is-gategoreiddio**

Rydym yn nodi'r frawddeg ym mharagraff 39 o'r ddogfen ymgynghorol sy'n 'cydnabod fod yna gwestiynau dyrys ynghylch ble y dylai'r ffiniau gael eu gosod'; mae hynny'n anorfod, ac mae'r uchod yn enghreifftiau o'r cwestiynau dyrys hynny.

Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw awgrymiadau er mwyn gwella'r tacsonomeg drafft hwn?

Gweler uchod.

Cwestiwn 3: Yn eich barn chi, pa faes neu feysydd penodol o gyfraith ddatganoledig sydd angen eu cydgrynhoi fwyaf, a pham?

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r dull arfaethedig o godeiddio cyfraith Cymru?

Cwestiwn 5: Pa weithgareddau gallai Llywodraeth Cymru ymgymryd â hwy neu eu cefnogi byddai'n eich helpu chi neu eraill i ddeall cyfraith Cymru'n well?

Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai categorïddio, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru'n eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n rhagweld? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall categorïddio, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma

